

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 26/11/19

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr A.Hopcyn, D.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), J.W.Parry, I.C.Thomas, C.Williams

1.Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.L.Davies (aelod ex-officio), W.R.Owen, W.T.Owen, R Thomas

2.Datgan Buddiant Personol

J.W.Parry – eitem 4 – Parc Coed Helen.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar ar y datblygiadau o ran Parc Coed Helen.

Nodwyd bod cyfarfod pellach wedi ei gynnal ar yr 28ain o Hydref, a trafodwyd y materion canlynol:

- (1) Bod y Cyngor Tref wedi penderfynu cymryd drosodd Parc Coed Helen o'r 1af o Ebrill, 2020 oni bai fod gwybodaeth yn dod i law fyddai'n newid y sefyllfa.
- (2) Yr amgylchiadau o ran Heather Williams, y Gofalwraig.
- (3) Bod Ken Jones, Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd am ddarparu gwybodaeth am pwy sydd yn llogi Parc Coed Helen, y ffioedd, telerau 'r Clwb Bowls a'r Clwb Criced, y trefniadau o ran yr offer chwarae, cyflenwyr cynnal tiroedd ynghyd â'r consesiynau hufen ia.
- (4) Bod y Clwb Criced yn y broses o osod wiced synthetig a bod bwriad i gael pafiliwn yn y dyfodol.
- (5) O ran peiriannau parcio ac arddangos bod Cyngor Gwynedd yn fodlon cyfrannu hyd at £6,500 tuag gosod y peiriannau. Roedd peiriant sylfaenol yn costio tua £3000.
- (6) Byddai wardeiniaid y Cyngor yn gallu galw yn Coed Helen yn achlysurol.
- (7) Mai Cyngor Tref Caernarfon fyddai'n gyfrifol am yr Yswiriant o'r 1af o Ebrill.

- (8) Bod Ken am wneud trefniadau i drefnu trosglwyddo'r cyflenwadau ynni efo Adran Eiddo Cyngor Gwynedd.

Ar fater arall, nodwyd ymhellach fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Ken Jones, Gwenan Huws Tomos, o Gyngor Gwynedd a'i fod wedi derbyn cadarnhad ar lafar y byddai'r arian ychwanegol o godi'r tâl parcio o 10% yng Nghaernarfon ar gael i'r Cyngor Tref o'r 1af Ebrill.

Roedd y Clerc angen dilyn i fyny y cwots a gafwyd ar gyfer torri gwair, ac roedd yr Adran Eiddo yn gyfrifol am sortio allan y Pen Termau. Roedd angen trafod ymhellach y costau parcio ynghyd ag os oedd yn werth rhoi llinellau melyn dwbl yno.

Nodwyd y byddai cael mewnbwn pobl ifanc, er enghraifft trwy Gyngor Ieuenctid, yn dda ar gyfer sut fyddai Parc Coed Helen yn cael ei ddatblygu.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc:

- (1) **Drefnu cyfarfod cychwynnol rhyngddo gyda'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**
- (2) **Trefnu ail gyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion ymarferol yn cynnwys asesiadau risg.**
- (3) **Gofyn i Dawn anfon manylion pellach ato o ran cael fainc wrth Cae Glyn.**

5. Llochesi Bysus

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Clerc ar y datblygiadau o ran llochesi bysus.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y lloches bysiau yn Noc Fictoria i fod i gael ei osod ar y 10fed o Ragfyr.
- (2) Ei fod am gyfarfod gyda'r Swyddog Cynnal a Chadw'r Cyngor Tref ar yr 28ain o Dachwedd, a'i fod am drafod glanhau llochesi bysus, ymysg materion eraill.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Cyngorydd C.Williams gysylltu gyda'r Clerc gyda fwy o wybodaeth.

6. Cynllun Bioamrywiaeth

Cyflwynwyd – gohebiaeth ynglŷn â'r dyletswydd adran 6 mewn cysylltiad â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Nodwyd:

- (1) Bod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd gryfach mewn cysylltiad â bioamrywiaeth ac ecosystemau, sef dyletswydd adran 6, ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

- (2) Bod y ddyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'u swyddogaethau, gan hyrwyddo ecosystemau wrth wneud hynny.
- (3) Y dylai'r ddyletswydd fod yn gymesur â maint a swyddogaethau'r Cyngor.
- (4) Bod yn rhaid i'r Cyngor gofnodi yr hyn rydym yn ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth erbyn diwedd 2019.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i baratoi'r adroddiad drafft er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth, gan raeadru yr hyn mae yn ei baratoi o gwmpas yr aelodau er mwyn derbyn eu sylwadau, a chyflwyno yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

7. Meysydd Chwarae

Cyflwynwyd llythyr gan Amanda Murray, Rheolwr Prosiectau, Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, a oedd wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith gan y Cyngor Llawn.

Roedd y llythyr yn nodi nad oedd gan Gyngor Gwynedd unrhyw opsiwn bellach ond gweithredu cyfres o arbedion effeithlonrwydd pellach i wasanaethau. Mewn ymgais i osgoi unrhyw doriadau cysylltwyd gyda cynghorau tref a chymuned er mwyn ceisio adnabod os oes ganddynt ddiddordeb ac yn fodlon ystyried cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y meysydd chwarae yn eu tref / cymuned. Gofynnwyd am ymateb os bosib cyn y 31ain o Rhagfyr.

Penderfynwyd gwahodd Amanda Murray, Rheolwr Prosiectau, Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith i drafod y mater ymhellach.

8. Cystadleuaeth Posteru Nadolig Ysgolion

Beirniadwyd y gystadleuaeth uchod ar ddiwedd y cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____